

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael

Mawrth 2023

# 1. Y cefndir

## Bil Caffael Llywodraeth y DU

1. Ym mis Rhagfyr 2020, cynigiodd Llywodraeth y DU ddiwygio deddfwriaeth caffael yn dilyn diwedd y cyfnod pontio pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Yn ei Phapur Gwyrdd, *Transforming public procurement*, gosododd Llywodraeth y DU ei nod sef:

*'[...] speed up and simplify our procurement processes, place value for money at their heart, and unleash opportunities for small businesses, charities and social enterprises to innovate in public service delivery.'*<sup>1</sup>

2. Ym mis Awst 2021 cyhoeddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) ei bod wedi derbyn cynnig gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth arfaethedig "i ddiwygio'r prosesau sylfaenol sy'n sail i gaffael" yng Nghymru.<sup>2</sup>

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3, 4 a 5)

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

4. Ar 9 Mehefin 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) (Memorandwm Rhif 1) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.<sup>3</sup>

5. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Rhif 1 erbyn 6 Hydref 2022.<sup>4</sup> Symudwyd y dyddiad adrodd hwn yn ddiweddarach

---

<sup>1</sup> Llywodraeth y DU, [Green Paper: Transforming public procurement](#), Rhagfyr 2020, paragraff 1

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Diwygio Caffael yng Nghymru](#), 18 Awst 2021

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Caffael](#), Mehefin 2022

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

i 10 Tachwedd,<sup>5</sup> ac yna i 24 Tachwedd 2022.<sup>6</sup> Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar Femorandwm 1 a 2 ar 22 Tachwedd 2022.

**6.** Ar 6 Rhagfyr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd ac ar 19 Rhagfyr 2022 gosododd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru.

**7.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog ar 26 Ionawr 2023 i gadarnhau materion a nodwyd yn y memoranda hynny.<sup>7</sup> Gwnaethom hefyd ysgrifennu at y Gweinidog ar 30 Ionawr 2023 gyda nifer o ymholiadau.<sup>8</sup>

**8.** Ymatebodd y Gweinidog i lythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 8 Chwefror 2023<sup>9</sup> a'r llythyr gennym ni ar 6 Chwefror 2023.<sup>10</sup>

**9.** Ar 7 Chwefror 2023, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5). Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar y Memoranda Atodol Rhif 3, 4 a 5 erbyn 23 Mawrth 2023.

## **Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer**

**10.** Ym Memorandwm Rhif 3, Memorandwm Rhif 4 a Memorandwm Rhif 5, mae'r Gweinidog yn datgan bod gwelliannau mewn perthynas â'r cymalau canlynol o'r Bil a'r Atodlenni iddo, fel y maent yn ymddangos yn y fersiwn fel y'i dygwyd gan Dŷ'r Arglwyddi<sup>11</sup>, yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd:

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig argyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael, Mehefin 2022

<sup>6</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig argyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael, Medi 2022

<sup>7</sup> Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog, Cyllid a Llywodraeth Leol, 26 Ionawr 2023

<sup>8</sup> Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Gweinidog, Cyllid a Llywodraeth Leol, 30 Ionawr 2023

<sup>9</sup> Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Chwefror 2023

<sup>10</sup> Llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Chwefror 2023

<sup>11</sup> Memorandwm Rhif 5, paragraff 15

- cymal 1 (Caffael a chaffael a gwmpesir – cymal newydd) a diwygiadau canlyniadol i gymalau a nodwyd gan y Gweinidog yn y Memorandwm cyntaf i wneud darpariaeth at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- cymal 2 (awdurdodau contractio);
- cymal 6 (contractau â chyfleustodau);
- cymal 10 (Caffael cymysg: contractau cyfundrefn arbennig);
- cymal 12 (Amcanion caffael);
- cymal 13 (Datganiad y polisi caffael cenedlaethol);
- cymal 19 (Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol);
- cymal 21 (Hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig);
- cymal 22 (Amodau cyfranogiad);
- cymal 32 (Neilltuo contractau i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth);
- cymal 35 (Marchnadoedd deinamig: sefydlu);
- cymal 36 (Marchnadoedd deinamig: aelodaeth);
- cymal 40 (Hysbysiadau marchnad ddeinamig cyfleustodau cymwys: dim dyletswydd i gyhoeddi tendr – cymal newydd);
- cymal 46 (Fframweithiau);
- cymal 51 (Cyfnodau segur ar ôl dyfarnu contractau);
- cymal 52 (Dangosyddion perfformiad allweddol);
- cymal 53 (Hysbysiadau manylion contract a chyhoeddi contractau);
- cymal 54 (Terfynau amser);
- cymal 56 (Manylebau technegol);
- cymal 62 (Rhestr waharddiadau);
- cymal 63 (Rhestr waharddiadau: cais i ddileu);

- cymal 64 (Penderfyniadau gwahardd: apeliadau);<sup>12</sup>
- cymal 65 (Llinell amser i gael gwared ar gyflenwyr);<sup>13</sup>
- cymal 66 (Anfonebu electronig: teler ymhlyg);
- cymal 67 (Telerau talu ymhlyg mewn contractau cyhoeddus);
- cymal 68 (Hysbysiadau cydymffurfio â'r gofynion talu);
- cymal 69 (Gwybodaeth am daliadau dan gontractau cyhoeddus);
- cymal 67 (Telerau talu ymhlyg mewn is-gontractau);
- cymal 74 (Hysbysiadau newid contract);
- cymal 76 (Cyhoeddi addasiadau);
- cymal 82 (Aseadau gwrthdaro);
- cymal 83(2)(a) (Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy);
- cymal 84 (Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: gweithdrefn);
- cymal 85 (Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: dyletswydd i ystyried busnesau bach a chanolig – cymal newydd);
- cymal 86 (Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: hysbysiadau);
- cymal 91 (Hysbysiadau piblinell);
- cymal 93 (Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau a system ar-lein);
- cymal 94 (Cyfathrebu electronig);
- cymal 95 (Gwybodaeth yn ymwneud â chaffael);
- cymal 97 (Dyletswyddau o dan y Ddeddf hon sy'n orfodadwy mewn achosion sifil);
- cymal 104 (Ymchwiliadau caffael);

---

<sup>12</sup> Tynnwyd diwygiadau i'r cymal hwn yn ôl wedyn

<sup>13</sup> Mewn llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, dywedodd y Gweinidog fod y cymal hwn yn debygol o gael ei ddileu.

- cymal 107 (Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau)
- cymal 109 (Gweinidog y Goron: cyfyngiadau ar arfer pwerau);
- cymal 118 (Rheoliadau);
- cymal 119 (Dehongli);
- cymal 120 (Mynegai ymadroddion diffiniedig);
- cymal 123 (Cychwyn);
- Atodlen 1 (Symiau trothwy);
- Atodlen 2 (Contractau esempt);
- Atodlen 4 (Gweithgareddau cyfleustodau);
- Atodlen 6 (Rhesymau dros atal gorfodol);
- Atodlen 7 (Rhesymau dros atal yn ôl disgrisiwn);
- Atodlen 11 (Diddymiadau a dirymiadau).

**11.** Ym mhob achos, i'r graddau y mae'r darpariaethau'n gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig, neu'n arferadwy mewn perthynas â hwy, mae angen cydsyniad y Senedd gan fod y cymalau a'r Atodlenni yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â dibenion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**12.** Er mai barn Llywodraeth Cymru yw y byddai angen cydsyniad y Senedd ar gyfer gwelliannau i gymal 64 (Penderfyniadau gwahardd: apeliadau) a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, tynnwyd y gwelliannau y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 5 yn ôl.

**13.** Mewn perthynas â chymal 107 (Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau), dywed y Gweinidog, ym mharagraff 17 o Femorandwm Rhif 5:

*“Nid yw'r diwygiadau i gymal 107 (gweler 18.16) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben rheoleiddio awdurdodau contractio sy'n gweithredu neu y mae eu swyddogaethau'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth a wneir gan y gwelliannau'n ymwneud â materion datganoledig i'r graddau ei bod ond yn berthnasol mewn perthynas ag awdurdodau contractio y mae eu gweithgareddau'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn*

*weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â materion cadw neu y mae eu swyddogaethau'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion cadw. Nid yw hyn yn newid y casgliad yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar 9 Mehefin 2022 bod y cymal hwn yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac felly'n ddarpariaeth berthnasol at ddibenion RhS 29."*

## **Gofyniad am Gydsyniad – Memorandwm Rhif 4**

**14.** Nid yw'n glir sut y byddai rhai cymalau yn y Bil, a hepgorwyd o Femorandwm Rhif 1, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. O ganlyniad, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog i ofyn am eglurhad. Roedd ymateb y Gweinidog fel a ganlyn:

*"Bydd achosion lle bydd y ddyletswydd i roi sylw i'r Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol (cymal 13(10) bellach yn fersiwn y Bil a ddygwyd o Dŷ'r Arglwyddi) a chymal 80 sy'n ymwneud â chontractau is na'r trothwy a reoleiddir (cymal 84 bellach yn fersiwn y Bil a ddygwyd o Dŷ'r Arglwyddi) yn berthnasol i awdurdodau contractio Cymru. Er enghraifft, pan fo awdurdod lleol o Gymru yn cydweithio gydag awdurdod lleol o Loegr ynghylch caffael, a'r awdurdod lleol yn Lloegr yw'r awdurdod arweiniol. Am y rheswm hwn, credwn fod y cymalau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."*

**15.** Yng ngoleuni'r wybodaeth ychwanegol hon, rydym yn cytuno â rhesymeg Llywodraeth Cymru dros geisio cydsyniad y Senedd ar gymalau 13 (Y datganiad polisi caffael cenedlaethol) a chymal 84 (Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: gweithdrefn).

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Caffael

**16.** Wrth egluro'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru o dan y Bil, mae Memorandwm Rhif 5 ym mharagraff 19 yn nodi fel a ganlyn:

*"Gan fod y gwelliannau y manylir arnynt yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac mae pob un yn ymwneud â'r darpariaethau a nodir yn y memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, mae'r rhesymeg dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil yn parhau i fod yn gymwys."*

**17.** Y rhesymeg a ddarparwyd ym Memorandwm Rhif 1, ym mharagraffau 117 a 118, oedd ym marn Llywodraeth Cymru, "y byddai dewis deddfu ar ddiwygio'r drefn gaffaelar lefel Cymru a Lloegr yn ddewis pragmatig". Cafodd y farn honno ei hailadrodd ym Memorandwm Rhif 2.

**18.** Mae Memorandwm Rhif 5, ym mharagraff 23, yn dod i'r casgliad a ganlyn:

*"Mae mwyafrif y gwelliannau sy'n cael eu cynnig yn fy marn i'n rhesymol. Gan fod mwyafrif y pryderon wedi'u datrys, rwy'n argymhell cydsynio elfennau caffael craidd y Bil, sef y rhan fwyaf o'r Bil. Fodd bynnag, rwy'n argymhell peidio â chydsynio'r rhannau hynny o'r Bil sy'n ymwneud â masnach ryngwladol am y rhesymau a ddisgrifir ym mharagraff 15."*

**19.** Mae'r materion sy'n weddill – fel y nodir ym mharagraff 15 o Memorandwm Rhif 5 – fel a ganlyn:

*"Mae'r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil wedi'i gynnwys fel pŵer cydredol, heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fyddai Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig, sy'n annerbyniol i Weinidogion Cymru. Mae darpariaethau tebyg wedi'u cynnwys yn y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd). Mae trafodaethau manwl yn parhau ar lefel swyddogol a phan fydd cytundeb, disgwylir y bydd canlyniad y trafodaethau hynny yn cael ei adlewyrchu yn y Bil Caffael."*

*Mae mater newydd sy'n peri pryder wedi codi o ganlyniad i un o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 25 Ionawr (gweler paragraff 18.12 isod am ragor o wybodaeth). Mae'n ymwneud ag*



*anghydfodau masnach lle gall MoC wneud rheoliadau i ddelio â chanlyniadau caffael anghydfod masnach o dan gytundeb a weithredwyd drwy Atodlen 9 (ond nid y Cytundeb Masnach a Chydweithredu â'r UE, yr ymdrinnir ag ef o dan y ddeddfwriaeth bresennol). Pŵer cydredol felly yw'r pŵer hwn, heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion y DU yn arfer y pŵer mewn perthynas â meysydd datganoledig, sy'n annerbyniol i Weinidogion Cymru."*

**20.** Roedd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) heb ei gytuno yn y Cyfarfod Llawn ar 31 Ionawr 2023.

## 2. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3, Rhif 4 a Rhif 5

**21.** Ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 3 a Memorandwm Rhif 5, mae'r Gweinidog yn datgan ei bod yn:

*"...briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys, ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru."<sup>14</sup>*

**22.** Mae'r Gweinidog o'r farn bod y gwelliannau arfaethedig yn amodol ar Femorandwm Rhif 3 "yn rhesymol, yn yr ystyr yr ymddangosant eu bod yn gwneud gwelliannau i'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, ac nad ydynt yn arwain at unrhyw feysydd newydd sy'n peri pryder i mi".<sup>15</sup>

**23.** Ym Memorandwm Rhif 5 mae'r Gweinidog yn datgan ei bod yn ystyried bod "mwyafrif" y gwelliannau arfaethedig yn amodol ar y memorandwm hwnnw yn rhesymol.<sup>16</sup>

**24.** Ar adeg gosod Memorandwm Rhif 3 a Rhif 4, roedd y Gweinidog o'r farn nad oedd yn briodol argymhell cydsyniad i'r Bil nes bod y materion o bryder y cyfeirir atynt yn y memoranda hynny wedi'u datrys.

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 24; Memorandwm Rhif 5, paragraff 22

<sup>15</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 25

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 5, paragraff 23

---

**25.** Fodd bynnag, ym Memorandwm Rhif 5, mae'r Gweinidog yn nodi fel a ganlyn:

*"Gan fod mwyafrif y pryderon wedi'u datrys, rwy'n argymhell cydsynio elfennau caffael craidd y Bil, sef y rhan fwyaf o'r Bil. Fodd bynnag, rwy'n argymhell peidio â chydsynio'r rhannau hynny o'r Bil sy'n ymwneud â masnach ryngwladol am y rhesymau a ddisgrifir ym mharagraff 15 [fel y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 25 o'r adroddiad hwn].<sup>17</sup>"*

### 3. Trafodaeth y Pwyllgor

**26.** Yn ein cyfarfod ar 26 Ionawr 2023, buom yn ystyried y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) mewn perthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU.

**27.** Buom hefyd yn ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 26 Ionawr 2023 yn gofyn am eglurder ar nifer o faterion y cyfeirir atynt yn y memoranda. Gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog yn ategu'r cais am eglurder ar y materion a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a chymeradwyo'r llythyr yn llawn.

**28.** Yn ein llythyr gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog am eglurhad ar bwynt ychwanegol mewn perthynas â Memorandwm Rhif 4. Gwnaethom nodi bod y Gweinidog wedi nodi bod y ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi amserlen ar gyfer atal technoleg ffisegol neu offer gwylidwriaeth o gadwyn gyflenwi caffael y Llywodraeth (lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod tystiolaeth sefydledig bod darparwr wedi bod yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern, hil-laddiad, neu droseddau yn erbyn dynoliaeth). Dywedodd, gan nad yw Llywodraeth wedi'i diffinio, nid yw wedi'i chyfyngu i Lywodraeth y DU, a'i bod yn credu y byddai hyn yn golygu y byddai'r amserlen hefyd yn cynnwys tynnu cyflenwyr o gadwyn gyflenwi caffael Llywodraeth Cymru.

**29.** Gwnaethom ofyn am eglurhad ynghylch y cyfranogiad, os o gwbl, a fydd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r amserlen y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gosod gerbron Senedd y DU; a'r effaith y gallai hyn ei chael ar Fusnesau Cymru a chyflenwad caffael Llywodraeth Cymru, gan gynnwys manylion goblygiadau ymarferol cael gwared ar gyflenwyr.

---

<sup>17</sup> Memorandwm Rhif 5, paragraff 23

**30.** Wrth ymateb i'n ymholiad, esboniodd y Gweinidog fod y gwelliant sydd wedi'i gynnwys ym Memorandwm Rhif 4, ac y cyfeiriwyd ato yn ein llythyr, yn debygol o gael ei ddileu gan Lywodraeth y DU yn ystod y cyfnod pwyllgor. O ganlyniad, nid oedd angen i'w swyddogion ystyried goblygiadau'r gwelliant hwn ymhellach.

**31.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 5 yn ein cyfarfod ar 2 Mawrth 2023.

## 4. Ein barn ni

**32.** Mae Memorandwm Rhif 5 yn codi rhai materion y mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen rhoi sylw iddynt a'u hegluro, ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

### Cymal 123 o'r Bil (Cychwyn)

**33.** Nid yw'n glir a yw gwelliant i gymal 123 (Cychwyn) yn cyflawni bwriad polisi'r Gweinidog. Nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o'r goblygiadau ariannol posibl o beidio â rhoi cydsyniad i Weinidog y Goron gychwyn darpariaethau yn y Bil o ystyried y datganiad yn adran goblygiadau ariannol Memorandwm Rhif 5.

**34.** Felly, mae'n aneglur beth fyddai'r goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru, neu'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, o beidio â rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU gychwyn darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag awdurdodau contractio Cymru. Mae goblygiadau ariannol y posibilrwydd o ddileu darpariaethau mewn perthynas ag awdurdodau contractio Cymreig o'r Bil yr un mor aneglur, yn ogystal ag unrhyw gamau y gallai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru eu cymryd i gyflwyno ei deddfwriaeth sylfaenol ei hun i'w disodli.

**35.** O fewn cylch gwaith penodol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, rydym yn nodi os na fydd Cymru yn cydsynio i Lywodraeth y DU gychwyn darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag awdurdodau contractio Cymru, a bod Cymru wedi'i hepgor o'r Ddeddf, bydd y goblygiadau ariannol yn fwy na'r hyn y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd yn yr asesiad ariannol, o ran y gost cyfle a gollwyd sy'n gysylltiedig â datblygu'r Bil presennol a chost ychwanegol unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig amgen.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi ystyriaeth bellach a manylach i'r goblygiadau ariannol posibl o beidio â rhoi cydsyniad i Weinidog y Goron gychwyn darpariaethau yn y Bil o ystyried y manylion annigonol sydd wedi'u cynnwys yn adran ariannol Memorandwm Rhif. 5.

## Lefel y manylder a ddarperir yn y memoranda

**36.** Rydym yn pryderu bod lefel y manylder ym Memorandwm Rhif 5 yn ddiffygiol ynghylch effaith gwelliannau a wnaed i'r Bil. Nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 1 a 2 bod Memorandwm Rhif 2 yn cynnwys sawl cyfeiriad bod gwelliannau yn rhai "mân ac yn rhoi mwy o eglurder".

**37.** Credwn mewn rhai achosion fod hwn yn grynodedb rhy syml o'r gwelliannau. Mae rhai crynodebau ym Memorandwm Rhif 5 nad ydynt yn nodi sut a pham y mae'r memorandwm newydd yn wahanol i'r memorandwm blaenorol. Er enghraifft:

- i. Cymal 68: Disgrifir diwygio'r cymal fel "mân welliant technegol". Mae'r gwelliant yn sylweddol gan ei fod yn eithrio contractau consesiwn o gwmpas hysbysiad cydymffurfio â thaliadau, er y cydnabyddir bod y gwelliant yn arwain at gysondeb â darpariaethau eraill yn y Bil ynghylch contractau consesiwn.
- ii. Atodlen 7: nid oes unrhyw esboniad o effaith mewnosod diffiniad o 'digwyddiad' ("event").

**Casgliad 1.** Rydym yn cefnogi casgliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar Femorandwm Rhif 5 sy'n pwysleisio i'r Gweinidog – a holl Weinidogion Cymru – y pwysigrwydd o ddarparu digon o fanylion i Aelodau o'r Senedd o fewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol. Credwn fod hyn yn arbennig o bwysig lle mae amserlenni ar gyfer gwaith craffu'r Senedd wedi'u cywasgu, er mwyn peidio ag ychwanegu at y diffygion democrataidd a achosir gan Filiau'r DU sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig a'r broses gydsynio gysylltiedig.

## Cyfle Cyfyngedig i Graffu gan y Senedd

**38.** Amlygwyd pryderon difrifol gennym yn ein hadroddiad blaenorol ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 1 a 2 am y cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer craffu manwl o fewn y broses cydsyniad deddfwriaethol. Roeddem yn rhannu barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac yn anghytuno ag awgrym y Gweinidog fod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn gyfartal â'r broses graffu deddfwriaethol fanwl ar Fil Senedd Cymru. Ategwn fod y broses o ystyried Bil Senedd Cymru yn cynnwys ymgynghoriad eang ar ei egwyddorion cyffredinol cyn gwaith craffu fesul llinell mewn pwyllgor ac ar lawr y Senedd, ynghyd â'r gallu i ddiwygio'r Bil yn gynhwysfawr fel yn briodol, elfennau sy'n gwbl absennol o'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

**Casgliad 2.** Rydym yn dal i bryderu mai cyfyngedig iawn yw'r cyfleoedd i'r Senedd graffu ar y darpariaethau hynny hefyd drwy gynnwys darpariaethau helaeth ar gyfer Cymru mewn Bil y DU. Rydym yn cydnabod bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r Bil, o ganlyniad i Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio (DPRR) Tŷ'r Arglwyddi, i sicrhau y bydd y mwyafrif helaeth o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Bil yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol, ond ychydig iawn o graffu manwl a fu ar y Bil ei hun drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

**Casgliad 3.** Rydym yn siomedig â'r amserlen fer a roddwyd i Bwyllgorau'r Senedd ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 3, 4, a 5, gan nad ydynt yn rhoi unrhyw gyfle i godi pryderon na cheisio eglurhad ar faterion gyda'r Gweinidog cyn i ni adrodd. Nid yw'r amserlen hyn wedi galluogi craffu digonol na manwl gan unrhyw un o Bwyllgorau'r Senedd.

**39.** Rydym yn rhannu siom y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod y Gweinidog wedi gwrthod awgrym y Pwyllgor hwnnw y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol o'i dull o ddeddfu ar gyfraith caffael, er mwyn llywio arferion yn y dyfodol.

**40.** Mae Mabon ap Gwynfor AS yn dymuno cofnodi ei safbwynt ei fod yn gwrthwynebu'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Caffael y DU.